CYNGOR SIR CEREDIGION

IARD STORIO A MAN PARCIO CEIR, Y TU ÔL I DRIFTWOOD /
THE HARBOURMASTER, QUAY PARADE, ABERAERON SA46 0BT

Nodiadau Canllaw i Ymgeiswyr

1. Mae'r Brydles ar gyfer yr Iard Storio a'r Man Parcio Ceir y tu ôl i Driftwood/Harbourmaster, Quay Parade, Aberaeron SA46 0BT (y Safle).
2. Bydd y Brydles am gyfnod o 5 mlynedd, gan ddechrau ym mis Rhagfyr 2026.
3. Bydd y rhent am y flwyddyn gyntaf yn daladwy wrth lofnodi'r brydles. Wedi hynny, bydd y rhent yn daladwy ymlaen llaw bob blwyddyn.
4. Ni chaniateir is-osod rhan o'r Safle na'r Safle cyfan.
5. Bydd y Tenant yn sicrhau bod y Safle'n cael ei gadw'n lân ac yn daclus, ac yn darparu cynwysyddion sbwriel digonol lle bo'n briodol. Ni chaniateir storio unrhyw eitemau y tu allan i'r Safle.
6. Mae'r Tenant yn ymrwymo i beidio ag achosi niwsans ar y Safle.
7. Ni chaniateir arddangos unrhyw hysbysebion ar y Safle.
8. Y Tenant fydd yn gyfrifol am yswirio unrhyw stoc ac offer a adewir ar y Safle.
9. Y Cyngor fydd yn gyfrifol am yswirio'r Safle, a bydd y gost yn cael ei throsglwyddo i'r Tenant.
10. Y Tenant fydd yn gyfrifol am yr holl waith atgyweirio mewnol ac allanol.
11. Bydd y Tenant yn indemnio'r Cyngor rhag unrhyw achos, costau, iawndal, hawliadau a galwadau sy'n deillio o ddefnyddio'r Safle, ac yn yswirio yn enwau ar y cyd y Cyngor a'r Tenant yn erbyn pob hawliad a galwad o'r fath.
12. Bydd y Tenant yn talu'r holl ardrethi, trethi, asesiadau a threuliau presennol ac yn y dyfodol, o ba fath bynnag, a godir neu a osodir ar y Safle neu ar y Cyngor neu'r Tenant.
13. Rhaid i'r Tenant ddarparu yswiriant digonol, gan gynnwys Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus o £10,000,000 o leiaf ar gyfer unrhyw un digwyddiad.
14. Efallai y bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu geirda banc boddhaol cyn y gellir derbyn ei gais tendro.
15. Bydd y brydles wedi'i heithrio rhag sicrwydd deiliadaeth o dan Ddeddf Landlord a Thenant 1954.
16. Rhaid cytuno ar unrhyw newidiadau allanol, gan gynnwys gwaith paentio, gyda'r Gwasanaeth Ystadau.

DS Amlinelliad yn unig yw hwn o'r Telerau ac Amodau. Nid yw'r Cyngor yn ymrwymo i dderbyn y Cynnig uchaf nac unrhyw Gynnig, ac mae derbyn unrhyw Gynnig yn amodol ar gwblhau Brydles ffurfiol ar delerau i'w pennu gan y Cyngor. Mae'r Cyngor drwy hyn yn cadw'r hawl i amrywio'r Amodau uchod neu ychwanegu atynt.

Gwasanaeth Ystadau, Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion,
Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA